



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Arolygon gwirio gwasanaethau Ffôn: Rheoliadau Rhif 6, Sector Addysg Bellach



Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
2	Methodoleg	1
3	Canfyddiadau	3
4	Tueddiadau	6
5	Casgliad ac Argymhellion	8
	Atodiadau	10

1 Cyflwyniad

- 1.1 Eleni, rydym wedi adolygu ein trefniadau ar gyfer monitro a rheoleiddio cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â'u dyletswyddau iaith, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau'r Cynllun Strategol a'r Deilliannau Rheoleiddio a gyhoeddwyd yn 2024-2025.
- 1.2 Fel rhan o'r adolygiad hwn, buom yn ystyried pa newidiadau a dulliau amgen oedd eu hangen i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, ac i hyrwyddo cydymffurfiaeth mewn modd mwy rhagweithiol.
- 1.3 Roeddem yn awyddus i ddatblygu dulliau monitro a hyrwyddo a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i ni ynghylch cydymffurfiaeth sefydliadau. Penderfynwyd cynllunio arolygon gwirio i'w cynnal yn chwarterol, gyda chanlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r sefydliadau unigol o fewn yr un chwarter.
- 1.4 Un o fanteision allweddol y dull hwn o fonitro yw bod sefydliadau'n cael gwybod am unrhyw faterion cydymffurfiaeth mewn modd amserol drwy gydol y flwyddyn, gan roi cyfle iddynt weithredu atebion priodol yn brydlon.
- 1.5 Gwiriwyd gwasanaethau ffôn yn ystod y chwarter hwn yn sgil pryderon a godwyd am ddiffyg cydymffurfiaeth mewn arolygon blaenorol. Y gwahaniaeth y tro hwn oedd bod yr holl sefydliadau a wiriwyd wedi cael gwybod ymlaen llaw ein bod yn bwriadu monitro eu gwasanaethau ffon.
- 1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r arolygon gwirio a gynhaliwyd â sefydliadau o fewn y sector addysg bellach sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 6 ac yn nodi argymhellion i'w hystyried er mwyn cefnogi a gwella cydymffurfiaeth o fewn eich sefydliad.
- 1.7 Er inni gynnal yr arolwg gyda sampl o'r sefydliadau yn unig, mae canfyddiadau'r adroddiad hwn ynghyd â'r argymhellion yn berthnasol i holl sefydliadau y sector addysg bellach sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 6.

2 Methodoleg

- 2.1 Arolygwyd saith sefydliad addysg bellach sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 6.
- 2.2 Roedd y sefydliadau canlynol yn rhan o'r sampl:
 - Coleg Catholig Dewi Sant
 - Coleg Gwent
 - Coleg Sir Benfro
 - Coleg Caerdydd a'r Fro
 - Coleg Gwyr Abertawe
 - Coleg Merthyr Tudful

- 2.3 Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd 2025.
- 2.4 Mae Rheoliadau Rhif 6, sef Rheoliadau Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r sector addysg bellach yn cynnwys safonau penodol am ddarparu gwasanaethau ffôn. Edrychwyd yn benodol ar gydymffurfiaeth â safonau 8, 9, 11, 13, 17 a 22.

Safon 8: Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'r prif rifau ffôn) neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau rhaid i chi gyfarch yn Gymraeg.

Safon 9: Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.

Safon 11: Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny—

(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a

(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

Safon 13: Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol.

Safon 17: Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.

Safon 22: Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.

- 2.5 Yn sgil gwaith monitro blaenorol, nodwyd amheuaeth o fethiant i gydymffurfio gan rai sefydliadau mewn perthynas â gwasanaethau ffôn.

- 2.6 Fel rhan o'r arolygiad, gwiriwyd tair galwad ffôn ar gyfer pob sefydliad, gan ddefnyddio'r rhif ffôn canolog a hyrwyddir ar wefannau'r sefydliadau dan sylw.

3 Canfyddiadau

- 3.1 Gweler isod ddetholiad o ddarpariaethau perthnasol [Cod Ymarfer Rheoliadau Rhif 1](#), sy'n egluro rhai o'r prif ofynion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ffôn.

Safon 8

4.2.2. Rhaid i gorff gyfarch person yn Gymraeg pan fo'r person hwnnw'n cysylltu â'r corff ar un o'i rifau ffôn perthnasol.


Safon 9

4.2.7. Os yw person yn cysylltu â'r corff ar un o'u rhifau ffôn perthnasol, rhaid i'r corff roi gwybod i'r person hwnnw bod gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael.


Safon 10

4.2.14. Rhaid i'r corff ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd unwaith y mae'n ymwybodol bod y person yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn.


- 3.2 Ar hyn o bryd, nid oes Cod Ymarfer penodol ar gyfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6). Fodd bynnag, defnyddiwyd egwyddorion a chanllawiau Cod Ymarfer Rheoliadau Rhif 1 fel pwynt cyfeirio priodol wrth asesu'r trefniadau a'r profiad defnyddiwr.
- 3.3 Gwiriwyd tair galwad ffôn dros gyfnod o amser ar gyfer pob un o'r saith sefydliad. O gyfanswm o 21 galwad ffôn, dim ond pedair a lwyddodd i ddelio â'r ymholiad yn llawn yn Gymraeg.
- 3.4 Roedd y methiannau i ddelio â'r ymholiadau yn llawn yn Gymraeg yn deillio o amryw o resymau, gan gynnwys diffyg ateb ar y llinell Gymraeg, neu'r unigolyn a atebodd yr alwad yn methu siarad Cymraeg ac, o ganlyniad, yn methu ymdrin â'r ymholiad drwy'r Gymraeg.



3.5 O'r 21 galwad ffôn a wnaethpwyd, pedair galwad a oedd wedi llwyddo i ymdrin â'r ymholiad yn llawn yn Gymraeg. Roedd y pedair galwad ffôn o dri sefydliad. Un sefydliad a oedd wedi llwyddo i ymdrin â dwy o'r tair galwad ffôn a wnaethpwyd i'r sefydliad yn Gymraeg. Ni lwyddodd yr un sefydliad i ymdrin â'r tair galwad yn Gymraeg.



3.6 Nodwyd bod y Gymraeg wedi'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn 15 o'r galwadau ffôn a wiriwyd. Roedd pedwar sefydliad wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ymateb i'r tair galwad ffôn, tra bod un sefydliad wedi ymateb i'r tair galwad heb drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.



- 3.7 Roedd pum o'r saith sefydliad yn cydydffurfio'n llawn â safon 8, gan gyfarch galwyr yn Gymraeg wrth ateb y ffôn. O gyfanswm o 21 galwad ffôn a wnaed, cafodd 19 eu cyfarch yn Gymraeg.
- 3.8 Mae Safon 11 yn ymwneud â gallu'r sefydliad i ddelio â galwad ffôn yn Gymraeg pan fo'r galwr yn dymuno hynny. Mae'r safon yn nodi:
- "Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny—*
- (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a*
- (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw."*
- 3.9 O'r 21 galwad ffôn a wiriwyd, llwyddodd pedair galwad ffôn i gydymffurfio'n llawn â safon 11 drwy ddelio â'r ymholiad yn Gymraeg. Llwyddodd dwy alwad i gydymffurfio'n rhannol, tra methodd 15 galwad â chydymffurfio â'r safon, gan fethu delio â'r ymholiad yn Gymraeg.
- 3.10 Yn ogystal, roedd 17 o'r galwadau ffôn yn cydydffurfio'n llawn â safon 22, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw system ffôn sydd wedi ei hawtomeiddio ddarparu gwasanaeth cyfan wedi ei hawtomeiddio yn Gymraeg. Roedd y pedair galwad arall yn cydydffurfio'n rhannol â'r safon hon.
- 3.11 Defnyddiodd pob sefydliad yr un rhif ffôn ar gyfer y gwasanaeth Cymraeg a'r gwasanaeth Saesneg. O ganlyniad, roedd pob sefydliad yn cydydffurfio'n llawn â safon 13.
- 3.12 Pan nad oedd gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael, ni roddodd unrhyw un o'r sefydliadau wybod pryd y byddai gwasanaeth Cymraeg ar gael. Mewn un achos, rhoddodd sefydliad wybod fod y Coleg ar gau, gan nodi mai oriau agor y Coleg oedd rhwng 8:30yb a 15:30yh, er i'r alwad gael ei gwneud am 10:30yb.

- 3.13 Mewn achos arall, roedd gan un sefydliad nifer o opsiynau i wasgu rhifau gwahanol ar gyfer gwasanaethau Saesneg amrywiol. Fodd bynnag, ni chynigiwyd unrhyw opsiynau cyfatebol ar gyfer y gwasanaeth Cymraeg, a ni chafwyd ateb ar y llinell Gymraeg.
- 3.14 Nodwyd bod rhai aelodau o staff yn dysgu Cymraeg. Mewn rhai achosion, gwelwyd ymdrech gadarnhaol i gyfathrebu yn Gymraeg a cheisio delio â'r ymholiad yn Gymraeg.
- 3.15 Fodd bynnag, mewn ymatebion eraill, gofynnwyd i'r galwr droi i'r Saesneg. Yn yr achosion hyn, ni chafwyd cynnig i drosglwyddo'r alwad i aelod arall o staff a allai ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg.
- 3.16 Mewn achos penodol, nodwyd nad oedd aelod o staff a atebodd yr alwad yn gallu darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar y pryd, er bod disgwyliad i alwadau gael eu hateb yn Gymraeg. Wedi i'r galwr nodi ei ddymuniad i dderbyn gwasanaeth Cymraeg, cynigiwyd trefnu trefniant amgen. Cafodd yr alwad ei chadw ar y llinell am ychydig, cyn gofyn am enw a rhif ffôn y galwr. Yn dilyn hynny, cysylltodd aelod arall o staff yn ôl, a darparwyd gwasanaeth llawn drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 3.17 Wrth ateb un alwad, nododd aelod o staff yn Saesneg y byddai'r alwad yn cael ei throsglwyddo. Fodd bynnag, nid oedd yr ail aelod o staff a atebodd yn gallu darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, a nodwyd nad oedd aelod o staff Cymraeg ei iaith ar gael ar y pryd. Cynigiwyd trefnu i rywun gysylltu'n ôl, neu fel arall i barhau â'r alwad yn Saesneg.
- 3.18 Mewn achos arall, nodwyd neges awtomatig ddwyieithog ar ddechrau'r alwad, gyda chyfarwyddyd i wasgu rhif 1 ar gyfer y gwasanaeth Cymraeg. Roedd gweddill y neges awtomatig yn Gymraeg, gan gynnig opsiynau gwahanol i fyfyrwyr a galwyr eraill. Fodd bynnag, ar ôl dewis yr opsiwn perthnasol, cyflwynwyd neges awtomatig uniaith Saesneg yn gofyn i'r galwr adael neges. Nid oedd neges awtomatig gyfatebol ar gael yn Gymraeg ar gyfer gadael neges.
- 3.19 Mewn achos arall, cyfarchwyd galwyr yn Saesneg yn gyntaf ac yn Gymraeg yn ail gyda neges awtomatig. Er nad yw hyn, ynddo'i hun, yn gyfystyr â diffyg cydymffurfiaeth, roedd y neges yn gofyn i'r galwr wasgu rhif penodol i dderbyn gwasanaeth Cymraeg, tra bod galwyr Saesneg yn aros ar y llinell. Ar ôl dewis yr opsiwn ar gyfer gwasanaeth Cymraeg, ni chafodd yr alwad ei hateb.

4 Tueddiadau

- 4.1 Yn gyffredinol, nid oes sicrwydd cydymffurfiaeth o dderbyn gwasanaeth Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau ffôn sefydliadau addysg bellach.
- 4.2 Gwnaed cyfanswm o **21 galwad ffôn** ar draws **saith sefydliad** (tair galwad fesul sefydliad). O'r galwadau hyn, dim ond **pedair** a ddeliodd â'r ymholiad yn llawn yn Gymraeg, a hynny ar draws tri sefydliad gwahanol. Mae hyn yn awgrymu bod derbyn gwasanaeth Cymraeg drwy'r gwasanaeth ffôn yn digwydd yn anghyson, ac nad oes trefniadau systematig ar waith i sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg ar gael yn ddibynadwy ar bob adeg.
- 4.3 Llwyddodd un sefydliad i ddelio â dwy o'r tair galwad yn Gymraeg. Fodd bynnag, ni lwyddodd unrhyw un o'r sefydliadau yn y sampl i ddelio â phob galwad yn Gymraeg, gan amlygu diffyg cysondeb mewn trefniadau gwasanaeth.

- 4.4 Nodwyd bod y Gymraeg wedi'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn 15 o'r galwadau ffôn a wiriwyd. Dim ond un sefydliad a lwyddodd i ymateb i'r galwadau heb drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan awgrymu bod trefniadau cadarn a chyson ar gyfer darparu gwasanaeth ffôn Cymraeg yn parhau i fod yn eithriad yn hytrach nag yn norm.

Rhesymau am fethu ymdrin â'r galwadau yn Gymraeg

- 4.5 Nodwyd bod methiannau i ymdrin â galwadau yn Gymraeg yn deillio'n bennaf o ddiffyg trefniadau effeithiol, gan gynnwys achosion lle nad oedd ateb ar y llinell Gymraeg ar gyfer y tair galwad a wnaed, yn ogystal ag achosion lle nad oedd yr unigolyn a atebodd yr alwad yn gallu darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, pan nad oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael, ni ddarparwyd gwybodaeth i'r galwr ynghylch pryd y byddai'r gwasanaeth ar gael.

Cydymffurfiaeth â'r safonau

- 4.6 Roedd pum o'r saith sefydliad yn cydymffurfio'n llawn â safon 8, gan gyfarch galwyr yn Gymraeg wrth ateb y ffôn. Yn gyffredinol, cafodd 19 o'r 21 galwad ffôn a wnaed eu cyfarch yn Gymraeg.
- 4.7 O ran Safon 11, llwyddodd pedair galwad ffôn i gydymffurfio'n llawn drwy ddelio â'r alwad yn Gymraeg, tra bod dwy alwad yn cydymffurfio'n rhannol. Fodd bynnag, methodd 15 o'r galwadau â chydymffurfio â'r safon, gan fethu ymdrin â'r ymholiad drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.8 Roedd pob un o'r sefydliadau yn cydymffurfio'n llawn â safon 13, gan ddefnyddio'r un rhif ffôn ar gyfer y gwasanaeth Cymraeg a'r gwasanaeth Saesneg.
- 4.9 O ran safon 22, llwyddodd 17 o'r galwadau ffôn i gydymffurfio'n llawn drwy ddarparu gwasanaeth awtomataidd yn Gymraeg. Roedd y pedair galwad arall yn cydymffurfio'n rhannol, gan ddarparu rhan o'r gwasanaeth drwy system ffôn awtomataidd Gymraeg.
- 4.10 Serch hynny, nodwyd enghreifftiau lle'r oedd neges awtomatig ar gael yn Gymraeg, ond mai neges uniaith Saesneg yn unig oedd ar gael ar gyfer gadael neges. Yn ogystal, mewn rhai achosion, roedd y gwasanaeth awtomataidd Saesneg yn cynnig mwy o opsiynau na'r gwasanaeth Cymraeg, gan arwain at brofiad anghyfartal i ddefnyddwyr Cymraeg.

Capasiti staff a chadernid trefniadau gwasanaethau ffôn

- 4.11 Nodwyd amrywiaeth yn y modd yr oedd staff yn ymateb i alwadau Cymraeg. Mewn rhai sefydliadau, gwelwyd bod aelodau o staff yn dysgu Cymraeg ac yn gwneud ymdrech i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, gofynnwyd i alwyr droi i'r Saesneg heb gynnig gwasanaeth Cymraeg, neu heb drosglwyddo'r alwad i aelod o staff a allai ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu diffyg gallu neu hyder ymhlith rhai aelodau o staff i ddarparu gwasanaeth Cymraeg, gan arwain at ddiffyg cydymffurfiaeth â'r safonau ac at brofiad llai cadarnhaol i ddefnyddwyr Cymraeg.

5 Casgliad ac Argymhellion

- 5.1 Mae'r gwaith monitro'n dangos bod darpariaeth gwasanaeth ffôn Cymraeg ym maes addysg bellach yn anghyson ac yn annibynadwy. Yn gyffredinol, nid yw'r trefniadau presennol yn ddigon cadarn i sicrhau bod gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael yn gyson, ac mae hyn yn amlygu'r angen am welliannau sylweddol er mwyn codi lefel cydymffurfiaeth ar draws y sector.
- 5.2 Mae diffyg capasiti staff, trefniadau annigonol o fewn systemau ffôn awtomataidd, a'r arfer o ofyn i alwyr droi i'r Saesneg yn tanseilio profiadau galwyr Cymraeg ac yn arwain at brofiad llai ffafriol. Nid oes gennym hyder fod camau digonol wedi'u rhoi ar waith gan rai sefydliadau i unioni'r diffygion a nodwyd nac i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.
- 5.3 O ganlyniad, disgwylir i sefydliadau weithredu'n brydlon i gryfhau eu trefniadau (gan gynnwys hyfforddiant, trefniadau staffio a chadernid systemau awtomataidd) er mwyn sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg llawn ar gael yn gyson. Yn ogystal, mewn rhai achosion ac o ran sefydliadau unigol, bydd y Comisiynydd yn llythyru i ofyn am gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Argymhelliad 1

Dylai sefydliadau ddatblygu a gweithredu trefniadau clir, wedi'u dogfennu a'u cymeradwyo'n ffurfiol, er mwyn sicrhau bod gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael yn gyson ac yn ddibynadwy ar bob adeg, yn unol â gofynion Safon 11. Dylai'r trefniadau hyn nodi'n glir sut y sicrheir capasiti digonol, gan gynnwys trefniadau wrth gefn pan nad yw aelodau penodol o staff ar gael.

Argymhelliad 2

Dylai sefydliadau sicrhau bod yr holl staff sy'n gyfrifol am ateb galwadau ffôn yn derbyn hyfforddiant priodol a rheolaidd, gan gynnwys:

- hyfforddiant i ddelio â galwadau ffôn Cymraeg yn ymarferol
- hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith
- dealltwriaeth glir o'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo galwadau neu drefnu gwasanaeth Cymraeg pan fo angen.

Argymhelliad 3

Dylai sefydliadau adolygu eu systemau ffôn awtomataidd i sicrhau:

- bod yr un ystod o opsiynau ar gael yn Gymraeg ag yn Saesneg, waeth pa lwybr a ddewisir
- bod negeseuon awtomataidd, gan gynnwys negeseuon i adael neges, ar gael yn Gymraeg

- bod y gwasanaeth awtomataidd Cymraeg yn gyflawn ac yn weithredol ar bob cam o'r broses.

Argymhelliad 4

Dylai sefydliadau sefydlu trefniadau rheolaidd i fonitro a gwerthuso cydymffurfiaeth â'r Safonau Cymraeg sy'n berthnasol i wasanaethau ffôn, er mwyn bodloni eu hunain bod y trefniadau ar waith yn ddigon cadarn. Dylai'r trefniadau hyn gynnwys mecanweithiau clir i nodi a chywiro unrhyw fethiannau a ganfyddir.

O ystyried bod adborth tebyg wedi'i roi yn y gorffennol heb arwain at welliant digonol, disgwylir i sefydliadau ddangos tystiolaeth glir o weithredu'r trefniadau hyn. Gellir defnyddio'r templed monitro galwadau ffôn a ddarperir ar wefan y Comisiynydd i gefnogi'r gwaith hwn.

Atodiadau

Data'r arolwg

	Do	Na	Rhannol
A ddeliwyd â'r ymholiad yn llawn yn Gymraeg?	4	14	3
A gafodd y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	15	6	

	le	Na	Rhannol
Cydymffurfio â safon 8	19		2
Cydymffurfio â safon 9	19		2
Cydymffurfio â safon 11	4	15	2
Cydymffurfio â safon 13	21		
Cydymffurfio â safon 17		12	
Cydymffurfio â safon 22	17		4

Rhestr o'r sefydliadau fu'n rhan o'r arolwg

Roedd y sefydliadau canlynol yn rhan o'r sampl:

- Coleg Catholig Dewi Sant
- Coleg Gwent
- Coleg Sir Benfro
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Gwyr Abertawe
- Coleg Merthyr Tudful
- Coleg Penybont